Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Asesiad o'r effaith ar hawliau plant

Asesiad ar ddefnydd y cyllid arian ar gyfer addysg ôl-16.

Cyhoeddwyd gyntaf: 17 Mai 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 19 Ebrill 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

2. Esboniwch sut y mae’r cynnig yn debygol o gael effaith ar hawliau plant.

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Dosbarthu'r cyllid ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghymru yn 2021-22 |
| **Swyddog(ion) sy’n cwblhau’r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw’r tîm):** | Geoff Hicks (Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau)<br><br>Helen Scaife (Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau) |
| **Adran:** | Yr Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes |
| **Pennaeth yr Is-adran/SRO (enw):** | Alan Woods |
| **Ysgrifennydd y Cabinet / Y Weinidog sy'n gyfrifol:** | Y Gweinidog Addysg |
| **Dyddiad dechrau:** | Ionawr 2021 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# 1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Mae dyrannu'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer darpariaeth Addysg Bellach wedi'i dargedu'n benodol at gyflawni'r ddyletswydd statudol o dan adran 31 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 bod yn rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y ddarperir cyfleusterau priodol ar gyfer addysg (ac eithrio addysg uwch) a hyfforddiant sy'n addas i ofynion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 19 oed. Mae'r cyfleusterau'n briodol os ydynt yn ddigonol o ran maint ac yn ddigonol o ran ansawdd i ddiwallu anghenion rhesymol unigolion.

Mae hyn yn cyd-fynd ag Erthyglau 28 a 29 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n ymwneud â'r Hawl i Addysg. Yn ogystal, mae dyraniad y cyllid yn ystyried ac yn targedu materion penodol sy'n effeithio ar bobl ifanc. Yn y dyraniadau:

- **Ceir fformiwla benodol sy'n dyrannu cyllid i gefnogi 'ymgodiad amddifadedd' a ddarperir yn benodol i alluogi darparwyr i dargedu darpariaeth at ddysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig a'u cefnogi er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan ac yn cyflawni;**
- **Mae'r ymgodiad teneurwydd poblogaeth yn targedu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig i sicrhau bod dysgwyr yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu ledled Cymru.**

Mae ymrwymiad i ddarparu cyllid atodol i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'i gynnwys yn y dyraniad cyllid. Mae cyfanswm y cwantwm hefyd wedi cynyddu 7.1% o gymharu â dyraniad 2020-21.

Yn y cyllid ceir cronfa o £2m i gefnogi'n uniongyrchol y ddarpariaeth o wasanaethau Iechyd Meddwl i ddysgwyr a staff yn y sector.

# 2. Esboniwch sut y mae’r cynnig yn debygol o gael effaith ar hawliau plant.

Mae darparu addysg a hyfforddiant ôl-16 yn effeithio ar ddysgwyr o bob oed, ac

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

felly mae'r effeithiau'n ymestyn llawer pellach na rhai plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cefnogi darpariaeth amser llawn ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ac felly mae'n cefnogi dibenion CCUHP ac yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Erthyglau canlynol:

*Erthygl 3 (lles y plentyn)*

*Rhaid i les y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant.*

Mae amgylchiadau ansicr ac ansefydlog y cyfnod clo a phandemig y coronafeirws wedi creu cryn anawsterau i bob dysgwr. Bydd darparu cyllid i alluogi darparwyr i barhau i gynnig darpariaeth yn rhoi sefydlogrwydd a'r strwythur i bobl ifanc ac yn sicrhau eu bod yn gallu parhau â'u dysgu.

*Erthygl 12 (parchu barn y plentyn)*

*Mae gan bob plentyn hawl i leisio'i farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i bobl ystyried ei farn o ddifrif. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser, er enghraifft yn ystod gweithdrefnau mewnfudo, penderfyniadau o ran lle i fyw neu fywyd dyddiol y plentyn yn y cartref.*

Mae dysgwyr wedi bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol wrth roi tystiolaeth a fydd yn llywio'r broses o wneud polisi yn y dyfodol o ganlyniad i effeithiau Covid-19. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd er mwyn eu cyhoeddi yn y dyfodol agos, a byddant yn llywio'r broses barhaus o ddatblygu polisi mewn ymateb i'r pandemig.

*Erthygl 28 (hawl i addysg)*

*Mae gan bob plentyn hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod yn rhad ac am ddim a rhaid i wahanol ffurfiau ar addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plant a'u hawliau. Rhaid i wledydd cyfoethocach helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.*

Mae gan bobl ifanc hawl i addysg ac mae ein dyletswydd statudol yn sicrhau ein bod yn darparu hyn. Mae'r cyllid hwn yn sicrhau ein bod yn gallu parhau i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyflawni’r ddyletswydd hon.

*Erthygl 29 (nodau addysg)*

*Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddi annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at ei rieni, ei ddiwylliant ei hun a ddiwylliannau eraill, a'r amgylchedd.*

Mae'r cyllid hwn yn galluogi darparwyr ôl-16 i ddarparu ystod o wahanol addysg a hyfforddiant sy'n galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Asesiad o'r effaith ar hawliau plant** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.